# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Bro Cernyw

**Y Caban**
**Safle Ysgol Bro Cernyw**
**Llangernyw**
**Abergele**
**LL22 8PP**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Bro Cernyw

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Bro Cernyw |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Victoria Clough |
| Person â gofal | Emma Swindells |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 14 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Ddydd Gwener 8.15yb – 3.00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 13 Gorffennaf 2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma'r arolygiad cyntaf |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 27/02/2024 |
| Lleolir Cylch Meithrin Bro Cernyw mewn caban ar safle Ysgol Bro Cernyw. Mae'r lleoliad yn agor am 8.15yb bob bore, er mwyn cynnig clwb brecwast. Mae'r sesiynau yn cael eu cynnal rhwng 9.00yb a 11.30yb (sesiwn gofal) gyda'r sesiwn addysg yn cael ei gynnal rhwng 1.00yp a 3.00yp bob prynhawn. Mae'r plant sydd yn mynychu drwy'r dydd yn cael y cyfle i fwynhau pecyn bwyd ei hunain neu ginio sydd yn cael ei ddarparu gan yr ysgol. | |

## Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn cysoni gweithdrefn addas i rannu gwybodaeth gyson gyda rhieni a gofalwyr am ddatblygiad eu plant.

A2 Sicrhau bod rhieni neu ofalwyr yn arwyddo'r cofnodion o ddamweiniau a digwyddiadau i gadarnhau eu bod wedi eu darllen.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob un plentyn yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn gyson. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu tu mewn a thu allan. Mae bron bob un plentyn yn mwynhau cwmni ymarferwyr a'u ffrindiau. Maent yn mynd at ymarferydd neu'n ymuno gyda grwp o ffrindiau yn ôl eu dymuniad. Maent yn helpu eu hunain i adnoddau o'r ardaloedd chwarae yn hyderus gan wybod bod ganddynt y dewis a'r rhyddid i wneud hynny. Er enghraifft, maent yn paentio wrth îsl mawr, chwarae gyda dinosoriaid, adeiladu â brics neu ymlacio â llyfr. Yn ystod amser byrbryd, mae plant yn dewis eu ffrwythau a chraceri eu hunain. Maent yn gwybod bod eu dymuniadau yn cael eu hystyried, ac yn hyderus i ofyn am gymorth, fel cefnogaeth i gerdded ar draws blociau yn yr ardd.

Mae bron bob un plentyn yn setlo'n gyflym, yn teimlo'n gartrefol, ac yn mynd ati i chwarae'n hapus, yn llawn egni a chyffro. Maent yn ymdopi'n dda ac yn teimlo'n ddiogel. Mae bron bob un yn hapus i rannu enwau, dangos eu sticeri a dweud pwy sydd yn eu casglu. Maent yn gyfarwydd ac yn gyfforddus ag arferion y dydd ac yn gwybod beth sy'n dod nesaf. Maent yn cael boddhad wrth ddatblygu eu dealltwriaeth am eu hunaniaeth. Er enghraifft, wrth iddynt astudio a sgwrsio am arddangosfeydd eu penblwyddi, a'u hunan bortreadau.

Mae bron bob un plentyn yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol gan sgwrsio a rhannu wrth chwarae. Maent yn parchu teimladau a

diddordebau eraill ac yn dysgu i gymryd tro. Er enghraifft, maent yn amyneddgar wrth aros eu tro gyda gweithgaredd morthwyl. Maent yn barod i gefnogi ei gilydd, er enghraifft, trwy gydweithio yn y gegin fwd i lenwi a gwagio cynwysyddion gyda dŵr. Mae bron bob un plentyn yn datblygu perthnasau agos a chynnes gyda'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr. Maent yn mwynhau cyfleoedd digymell i ymuno mewn gweithgareddau canu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn frwdfrydig yn eu chwarae ac yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu. Er enghraifft, maent yn diddori wrth ddysgu am adar a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau sy'n eu dysgu am fywyd aderyn bach. Maent wrth eu boddau'n gwasgu botymau sain ac edrych ar bosteri i gyd-fynd â'r adar yn y llyfr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio'n ofalus ac yn arbrofi am gyfnodau. Er enghraifft, maent yn canolbwyntio wrth ddefnyddio lorïau a thryciau i symud, codi a gwagio cerrig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus i arbrofi yn eu hamgylchedd, er enghraifft, wrth ddysgu am flodau fel Briallu a Chennin Pedr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau wrth gwblhau tasgau dyddiol fel helpu i dacluso, gwisgo eu cotiau, arllwys dŵr o jygiau a chyflawni eu gweithgareddau. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn dewis gwahanol adnoddau i greu parot allan o does a phlu.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar y plant yn dysgu. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant tair neu bedair oed a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn cael addysg a ariennir yn rhywle arall yn rhy fach i adrodd arni heb adnabod y plant.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn gweithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o brosesau diogelu. Mae ganddynt dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran gweinyddu a chadw cofnodion wrth roi meddyginiaeth. Mae ymarferwyr yn gweithredu proses o gofnodi damweiniau a digwyddiadau yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau presennol yn sicrhau bod rhieni neu ofalwyr yn eu harwyddo i gadarnhau eu bod wedi eu darllen. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol ac mae'r gweithdrefnau gweini bwyd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn diheintio arwynebau ac yn gwisgo menig a ffedogau wrth baratoi bwydydd iachus fel ffyn bara, ciwcymber, afal a llus. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod fflasgiau dŵr y plant ar gael ar bob adeg, ac yn cynnig dewis o ddŵr neu llefrith yn ystod amseroedd byrbryd. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth am anghenion unigol y plant gan gynnwys alergeddau. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth ddilyn polisi newid clytiau ac yn cadw cofnodion cywir. Mae gan yr ymarferwyr system gofrestru trwyadl a threfnus ac maent yn sicrhau bod ganddynt gofnodion caniatâd yn eu lle.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl gyda'r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig ac yn modelu rhyngweithiadau naturiol a chynnes. Mae ymarferwyr yn annog plant i ystyried eu hymddygiad wrth ddysgu i rannu, aros a chymryd eu tro. Maent yn arsylwi'r plant, gan wrando ac egluro mewn modd gofalgar a thyner sydd yn creu teimlad o berthyn. Er enghraifft, maent yn esbonio'n gyson beth sy'n digwydd nesaf, fel symud i'r ardal allanol, neu baratoi ar gyfer cinio. Mae ymarferwyr yn eistedd wrth y bwrdd gyda'r plant yn ystod cyfnodau byrbryd a chinio, ac yn atgyfnerthu moesau da fel "plîs" a "diolch." Maent yn canmol y plant yn gyson, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu sgiliau, eu dealltwriaeth o arferion, a'u hunan hyder. Wrth gael ymarferwyr yn agos, mae plant yn llwyddo i fwyta eu cinio'n annibynnol ac agor pecynnau o fewn eu bocsys bwyd.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Maent wrth law i gynnig cefnogaeth pan mae plant yn gofyn, er enghraifft wrth agor fflasg ddŵr neu wisgo cot. Mae ymarferwyr yn darparu'n dda ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy ddefnyddio rhwydweithiau'n effeithiol a dilyn gweithdrefnau pwrpasol. Maent yn arsylwi ar blant mewn modd sensitif ac effeithiol er mwyn eu hannog i feddwl a datrys problemau. Mae ymarferwyr yn sicrhau profiadau amrywiol sy'n cymell y plant i ddysgu trwy wneud. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i'r plant i brynu wyau a chynhwysion o'r siop leol a choginio crempog eu hunain.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn llwyddo'n hynod effeithiol i ddarparu cyfleoedd dysgu ysgogol ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau bod plant yn adeiladu ar eu profiadau dysgu ac yn eu hannog i ddatblygu ystod eang o fedrau ar draws holl feysydd y ddarpariaeth. O ganlyniad i'r gweithdrefnau cynllunio trwyadl mae profiadau dysgu yn annog datblygiad cyffredinol y plant a'u cynnydd. Mae'r profiadau dysgu yn llwyddo'n effeithiol i adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r plant.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod gweithgareddau'n cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn darparu llyfrau diddorol, sy'n ysgogi'r plant i fynd am antur gyda'u hysbienddrych. Ceir ystod eang o adnoddau rhifedd fel til a ffôn yn y siop, ac mae'r plant yn eu defnyddio'n ddychmygus. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau modur mân yn effeithiol wrth iddynt chwarae ag amrywiol adnoddau bach.

Mae ymarferwyr yn sicrhau gweithgareddau symbylus i ddatblygu gwahanol fedrau'r plant. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol er enghraifft wrth gerdded ar hyd planc pren rhwng dau deiar gan gofio breichiau cadarn i helpu gyda chydbwysedd. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ardal gyfagos lle mae'r plant yn dysgu am eu hamgylchedd naturiol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleodd eang a chynhwysfawr i'r plant ddefnyddio a phrofi'r Gymraeg cymaint â phosib yn eu dysgu. Maent yn modelu'r iaith yn raenus a chyson ac yn canu rhigymau a hwiangerddi cyfarwydd. Mae'r mewnbwn rheolaidd

yma yn cyfrannu'n gadarnhaol ac effeithiol i sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau Cymraeg yn gynyddol. Mae ymarferwyr yn cyflwyno diwylliant Cymru trwy weithgareddau fel dysgu am dimau rygbi a phêl droed Cymru gan gynnig cyfleoedd iddynt fwynhau gwylio gemau, adnabod lliwiau ac ymarfer sgiliau.

Mae ymarferwyr yn cynnig cyfuniad buddiol o weithgareddau dan arweiniad, a chyfnodau o chwarae rhydd. Mae ganddynt wybodaeth gyfoethog o anghenion unigol y plant. Maent yn defnyddio amrywiaeth ardderchog o adnoddau ac ymyrraeth er mwyn sicrhau fod y plant yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn datblygu hyder, gwydnwch a hunan barch yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn cwestiynu'n fedrus gan herio plant i feddwl drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn holi'r plant pam fod angen blanced ar y babi, gan dderbyn yr ymateb yn egluro fod y babi'n oer. Mae gan ymarferwyr wybodaeth am gynnydd a datblygiad y plant ac yn gwneud penderfyniadau priodol am sut orau i symud y dysgu yn ei flaen. Mae arweinwyr wedi datblygu strwythurau asesu effeithiol. Caiff pob ymarferydd ei annog i gyfrannu at y broses o adnabod cynnydd a chynllunio gweithgareddau addas.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân. Maent yn sicrhau nad oes modd i ymwelwyr gael mynediad i'r lleoliad ar unrhyw adeg oni bai bod ymarferwyr yn ymwybodol. Mae ymarferwyr yn cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn ddiogel ar y safle. Mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad ac offer diogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Er enghraifft, maent yn trefnu bod yr offer tân a'r blychau cymorth cyntaf, yn cael eu gwirio a'u hadnewyddu'n briodol. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol a phwrpasol. Mae rhain yn cael eu hadolygu'n fanwl a'u defnyddio'n yn hyderus ac amserol. Mae arweinwyr yn cadw cofrestr presenoldeb plant ac ymarferwyr, sy'n cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd o ansawdd sydd yn groesawgar a chynnes. Mae'r amgylchedd yn hunangynhwysol ac mae ymarferwyr yn sicrhau diogelwch a phreifatrwydd y plant. Mae arweinwyr yn darparu toiledau addas a chyfleusterau newid clytiau pwrpasol. Maent yn sicrhau bod y gegin a'r holl gyfarpar ar gael er mwyn hwyluso paratoi bwyd. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyntedd diogel lle mae cotiau, bagiau a dillad glaw y plant o fewn eu cyrraedd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn galluogi'r plant i gael mynediad parhaus i'r ardal allanol. Maent wedi creu amgylchedd ysgogol a chyffrous yn yr ardal tu allan sy'n cynnig heriau a chyfleoedd pwrpasol i blant gymryd risg a datblygu chwilfrydedd. Er enghraifft, mae'r ardd yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r plant fwynhau dysgu am blannu blodau, a chegin fwd i arbrofi gyda chynwysyddion go iawn fel sosbenni, bwcedi a jygiau. Mae arweinwyr yn cynllunio ardaloedd dysgu amrywiol sy'n gwahodd y plant i archwilio a darganfod. Er enghraifft, maent yn darparu ardaloedd chwarae rôl ac adeiladu, tipi storïau, a llwyfan ar gyfer perfformio. Maent yn sicrhau cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch i blant a'u cefnogi i fentro.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau amrywiol sy'n hygyrch i blant. O ganlyniad, mae gan blant fynediad rhwydd at gyfarpar o safon, sydd yn eu galluogi i ddewis a dilyn eu diddordebau. Mae ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda trwy gynnig adnoddau iddynt gael profiadau amlddiwylliannol. Er enghraifft, maent yn darparu amrediad o ddoliau a llyfrau o wahanol wledydd ar draws y byd. Maent yn darparu arddangosfeydd sy'n adlewyrchu eu gwaith gyda'r gymuned yn lleol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn ymroddgar iawn ac mae ganddi weledigaeth glir a chadarn sydd wedi ei selio ar sicrhau darpariaeth o'r safon uchaf ar gyfer y plant. Ynghyd â'r pwyllgor rheoli a'r ymarferwyr, mae'n gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn ymateb yn garedig i anghenion pob plentyn. Mae lles y plant wrth wraidd popeth sy'n digwydd yn y lleoliad ac o ganlyniad, mae'r plant yn hapus ac yn gwneud cynnydd da.

Mae gweithdrefnau hunan werthuso'r lleoliad yn canolbwyntio'n effeithiol ar amrediad eang o dystiolaeth a mewnbwn yr holl rhanddeiliaid. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i wella'n bwrpasol ac yn cyd weithio er mwyn datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Mae arweinwyr yn rhannu'r camau gweithredu synhwyrol gydag ymarferwyr, gan ystyried y dulliau mwyaf effeithiol o gyrraedd eu blaenoriaethau. Nodwedd gref sydd wedi ei datblygu'n llwyddiannus yw gallu'r ymarferwyr i werthuso cynnydd y plant. Er hyn, nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol am gynnydd plant yn cael ei rannu gyda rhieni a gofalwyr yn gyson.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau rhaglen werthfawr o hyfforddiant ar gyfer yr ymarferwyr. Mae effaith yr hyfforddiant i'w weld yn glir yng ngwaith ac agweddau'r ymarferwyr tuag at y plant. Darperir hyfforddiant buddiol ar agweddau fel arwyddo sylfaenol ac ar hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ymysg y plant. Mae hyn oll yn cyfrannu'n gadarnhaol at allu'r ymarferwyr i gynnal a chefnogi'r plant. Mae gan arweinwyr system effeithiol i oruchwylio'r ymarferwyr a mae targedau yn cael eu trafod a'u cytuno. Mae'r targedau yn cyd fynd â blaenoriaethau'r lleoliad ac arbenigeddau staff unigol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraniad yr ymarferwyr i wella'r lleoliad a'u datblygiad proffesiynol personol.

Mae'r arweinydd yn neilltuo cyllid priodol drwy wneud defnydd effeithiol o grantiau lleol a chenedlaethol sy'n arwain at welliant yn ansawdd y ddarpariaeth. Enghraifft o hyn yw'r buddsoddiad parhaus ar yr ardal allanol sy'n cynnwys ardal dan do gwerth chweil. Mae'r ardal ysgol goedwig yn cael ei datblygu ac yn cynnig cyfleoedd pellach i'r plant ddysgu yn yr awyr agored ac am yr amgylchedd a'r fro maent yn rhan bwysig ohoni. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

Mae'r arweinydd yn cydweithio'n llwyddiannus gydag amryw o asiantaethau allanol. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogion yr awdurdod lleol a'u sefydliad cefnogi. Mae adroddiadau, cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol yn cael eu gwerthfawrogi gan arweinwyr a maent yn ymateb yn bwrpasol i unrhyw argymhellion ar gyfer gwella. Mae ganddynt berthynas gadarnhaol iawn gyda rhieni a gofalwyr. Wrth i blant

ddechrau yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr er mwyn canfod anghenion a diddordebau'r plant. O ganlyniad maent yn gallu darparu ar gyfer eu diddordebau'n llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/05/2024